OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2009 Rhif 2154 (Cy.179)

# ARDRETHU A PHRISIO, CYMRU

## Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Taliadau Gohiriedig) (Cymru) 2009

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *31 Gorffennaf 2009* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *4 Awst 2009* |
| *Yn dod i rym - -* | *28 Awst 2009* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 62, 143(1) a (2) a 146(6) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988(**1**), a pharagraff 6(5) a (6) o Atodlen 8 a pharagraffau 1 i 4 o Atodlen 9 i'r Ddeddf honno, yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

(**1**) 1988 p. 41. Diwygiwyd paragraff 1 o Atodlen 9 yn rhagolygol gan Atodlen 13 i Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodi 2007 (p.15). Mewnosodwyd paragraff 2(2)(ga) gan baragraff 44(2) o Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 (p. 42); diwygiwyd paragraff 2(2)(h) gan baragraff 44(3) o'r Atodlen honno. Breiniwyd y pwerau hyn bellach yng Ngweinidogion Cymru i'r graddau y maent yn arferadwy mewn perthynas â Chymru. Trosglwyddwyd hwy yn gynharach i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672); *gweler* y cofnod yn Atodlen 1 ar gyfer Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988. Yn rhinwedd paragraffau 30 a 32 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), fe'u trosglwyddwyd i Weinidogion Cymru.